

Archwiliad Duw

“Gwelais y meirw, yn fawr a bach, yn sefyll o flaen yr orsedd; ac agorwyd llyfrau.” (adn. 12)

Beth am ddarllen Datguddiad 20:7–15 ac yna myfyrio

Mae'r darlleniad heddiw yn dweud wrthym fod Duw yn cadw cofnod mewn llyfrau o'r hyn y mae pobl wedi ei gyflawni, a bod pawb sydd yn anedifeiriol yn cael eu galw i gyfrif yn y diwedd. Rhaid i farnwr gerdded gyda thraed o blwm, yn ôl yr Esgob Jewel. Yr hyn a olygodd wrth ddweud hyn oedd ei bod yn beryg i bobl sy'n cael eu galw i farnu i symud yn gyflym at y farn. Efallai mai dyma'r rheswm pam fod Duw yn gadael Dydd y Farn i ddiwedd hanes dynoliaeth. Ni fydd yn dedfrydu unrhyw un nes y byddant wedi cael pob cyfle i droi oddi wrth eu pechod a darganfod maddeuant. Mae'r rhai hynny sy'n meddu ar feddylfryd Philistaidd yn gwrthod y darlun dychrynlyd yma o'r farn olaf. Maent yn ystyried hyn fel llenyddiaeth ddarluniadol. Yn ei lyfr *The Problem of Pain*, dywed C. S. Lewis, “Buaswn yn fodlon talu unrhyw bris yn y byd i fedru dweud gydag argyhoeddiad y bydd pob un yn cael ei achub. Ond mae fy rheswm yn dweud, ‘Heb ei ewyllys, neu gyda’i ewyllys?’ Os dywedaf, ‘Heb ei ewyllys’, yr wyf ar unwaith yn darganfod gwrthddywediad; sut all y weithred o hunanymwadiad fod yn rhywbeth nad yw ein hewyllys ynglŷn â hi? Os wyf yn dweud ‘Gyda’i ewyllys’, mae fy rheswm yn ateb, ‘Sut, os nad yw am ildio?’” Mae'r Beibl yn ei gwneud yn glir fod yna fyrddiynau sydd yn gwrthod ildio i honiadau Iesu Grist. Os yw'r farn dragwyddol yn sicr, ac mae'r Ysgrythur yn dweud yn glir am y farn honno, yna mae'n beth sylweddol i eglwys esgeuluso'r gwirionedd hwn.

Mae'r modd y mae'r Eglwys Gristnogol yn ein dydd ni yn anwybyddu'r Dydd yma yn beryg real. Yn sicr, mae pobl yn poeni mwy am ddifodiant trwy ryfel neu drwy effeithiau dynion ar yr amgylchfyd nag y maent am y farn hon. Yn ôl yr Ysgrythur, mae'r farn yn llawer iawn gwaeth nag unrhyw beth a all ddigwydd ac a ellir ei ddiffinio fel trychineb naturiol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Dan. 7:9–10; Ioan 16:7–11; 2 Pedr 3:1–10

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd yr Ysbryd Glân i'w wneud pan fyddai Ef yn dod?
2. Pam fod Duw yn oedi ei farn?

Gweddi

O Dduw, rwy'n gweld fod yr Efenfyl yn cynnwys newyddion drwg a newyddion da. Y newyddion drwg yw bod yna ddiwrnod yn dod pan fydd barn yn syrthio. Y newyddion da yw bod Iesu Grist wedi dod i'n gwaredu ni rhag y farn derfynol honno. Caniatâ i ni ddweud y cyfan o'r newyddion wrth ein cenedlaeth. Amen.